Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 31 Hydref 2017

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, S. Edwards, G. Parry, G. C. Jones, Meirion Jones, E. Parry, D. Jones,

Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	Merfyn Jones, H. Huws, A. Williams,		
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb		
3.0	**Cyfrifon Mis Hydref 2017**		
3.1	Nodwyd fod taenlen wedi cyflwyno i Bwyllgor Cyllid yng nghyfarfod Mis Hydref yn cadarnhau taliadau yn erbyn y Gyllideb		
3.2	Nodwyd rheoliadau ariannol newydd angen eu trafod yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Cyllid yn Ionawr		
3.3	J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio, derbyniwyd fel rhai cywir		
4.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
4.1	G. C. Jones yn nodi Cyfarfod Unllais wedi bod ar 04/10/17 gyda siaradwr Robert Idris. Nodwyd bod lot o gwynion am Betsi Cadwaladr gan Gynghorau Tref a Chymuned. Cytunwyd i A. Mummery baratoi braslun o achosion safle Canolfan Iechyd yn Llanfair a'i yrru ymlaen i G. C. Jones	A. Mummery	
4.2	Nodwyd G. C. Jones bod adroddiad arolygwyr wedi gofyn am daenlen o ddatganiadau diddordeb Cynghorau Tref a Chymuned. Cytunwyd bod hyn ddim yn statudol ac i ofyn i Unllais am dempled i'w ddefnyddio.		
4.3	Pencampwr Iaith - Nodwyd nid yw'n ofynnol fod y swyddog sydd yn cael ei benodi yn Gynghorwr Cymuned. Cytunwyd i G. C. Jones holi Elwyn Hughes a David James.	**G. C. Jones**	
4.4	Merion Jones yn nodi bod cyfarfodydd yn parhau ar gyfer Cyllideb y Cyngor Sir a disgwylir i fod allan i ymgynghoriad tua Rhagfyr		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 26 Medi 2017**		
5.1	J. Roberts yn cynnig, Meirion Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir		
6.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
6.1	Llywodraethwr Ysgol Gynradd - A. Mummery yn nodi bod dim diweddariad ar hyn o bryd. Nodwyd G. C. Jones fod ganddo ddiddordeb. J. Roberts yn cynnig, Meirion Jones yn eilio G. C. Jones fel cynrychiolwr y Cyngor Bro Llanfairpwll a Penmynydd a Star. A. Mummery am roi'r cynnig ymlaen i Gyngor Penmynydd a Star i weld os yw'n cytuno.	**A. Maer**	
6.2	Twr Marcwis - Dim diweddariad pellach ar hyn o bryd	**A. M**	
6.3	Llwybr beicio - Cyngor Sir am wneud y gwaith pan fydd contractwr yn ôl yn yr ardal yn gweithredu.		
6.4	Grant memorials fund am waith ar y cloc - Nodwyd bod Dewi Williams DEWIS wedi ymweld â'r cloc a chytuno dylai ail/bwyntio'r cloc yn rhwystro dŵr ddod i mewn. A. Jones wedi derbyn pris gan Marquess Masonry a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn y pris a pharhau a'r gwaith, yn amodol na fydd yn parhau yn ystod gwasanaeth cofio a'r goeden Nadolig. Nodwyd efallai fydd angen gwaith mwy parhaol yn y dyfodol.	**D. Owen**	
6.5	Gwelliannau Pentrefol a sefydliad cymunedol - A. Mummery wedi derbyn dogfennau gan Caru Amlwch a fydd yn ddefnyddiol i sefydlu mudiad tebyg. Cytunwyd i alw cyfarfod Cyhoeddus yn y Gwanwyn i drafod.	**D. Owen**	**Gynnar yn 2018**
6.6	Grantiau - Merfyn wedi llenwi ffurflen cais Horizon ar gyfer y Neuadd Goffa, disgwyl sylwadau.	**Aelodau Cyngor Bro**	
6.7	Clwb Snwcer - Nodwyd fod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi trefnu am 15/11/17, A. Mummery a Meirion Jones i fynychu ar ran bwyllgor Neuadd Goffa	**A. M a M. J**	**15/11/17**

6.8	Trefniadau Nadolig - G. C. Jones a A. Jones wedi cyfarfod, cytunwyd i gynnal noson garolau ar 20/12/17 am 7:00yh. Nodwyd bod angen archebu coeden i'w danfon erbyn 01/12/17. Nodwyd bod angen symud y bocs dal y goeden yn ôl i'w le. Cytunwyd i archebu meicroffon a stand i'w ddal. Nodwyd hefyd bod angen cadarnhau pa fudiad i gasglu arian tuag at ar y noson, cynigion i mewn erbyn 28/11/17		
6.9	Cysgodfa Bws ger Carreg y Bran - Disgwyl sylwadau pellach gan y Cyngor Sir	**D. Owen**	**29/11/17**
7.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Fynwent 10/10/17**		
7.1	G. Parry yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir		
8.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
8.1	E. Parry am gyfarfod a G. Parry ar safle i drafod gwaith angenrheidiol sydd angen yno.	**E. Parry a G. Parry**	
9.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid 10/10/17**		
9.1	A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
10.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
10.1	Grant Cynnal Neuadd Goffa - Nodwyd bod angen i'r clerc wneud y cais yn flynyddol ym Mis Mai.	**D. Owen**	
10.2	Awdit - Cyfarfod i'w drefnu pan fydd wedi derbyn yn ôl	**D. Owen**	
11.0	**Sied i'r Neuadd Goffa**		
11.1	Cytunwyd i A. Jones archebu braced i'r taflunydd i'r Neuadd Goffa am £25. Fydd angen i rywun ei osod wedyn		
11.2	Cytunwyd i archebu'r sied, a'r Mat Bowlio Byr yn cyfrannu £50 tuag at y sied. Diolchodd A. Mummery i A. Jones am ei waith caled gyda'r Cyngor Bro a Neuadd Goffa		
12.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
12.1	31C442A Cais llawn ar gyfer droi 1 annedd yn 2 annedd yn cynnwys dymchwel rhan o'r annedd presennol ynghyd ac addasu ac ehangu yn Siop Uchaf, Llanfairpwll - Dim sylw		
13.0	**Gohebiaeth**		
13.1	Swyddfa Bost - Penderfyniad yn dilyn ymgynghoriad - Derbyn y wybodaeth. Nodwyd fod y safle presennol yn cau ar 18/12/17 a'r un newydd yn agor ar 19/12/17		
13.2	Grid Cenedlaethol Amseriad ein cais - Derbyn y wybodaeth		
13.3	Comisiwn Ffiniau - Arolwg 2018 o etholaethau seneddol yng Nghymru (cynigion diwygiedig) - Cytunwyd i ymateb yn gwrthwynebu ac yn cefnogi cadw'r drefn bresennol	**D. Owen**	
14.0	**Materion Brys**		
14.1	Wal Maes Parcio Neuadd Goffa - Cytunwyd i ailgysylltu gyda stad Tŷ Coch yn gofyn am gyfraniad i adnewyddu'r wal		
14.2	Biniau Baw Ci - Dyfed Jones yn nodi bod angen un wrth y Co-op, a bod diffyg niferoedd yn y pentref a bod baw ci dal yn broblem. Cytunwyd i ofyn be mae Kingdom yn ei wneud am y mater a beth yw polisi baw ci'r Cyngor Sir	**D. Owen**	
14.3	Ty Stesion - Cytunwyd i ymateb i Pringles yn nodi fod yn hollol annerbyniol ac ein bod am fynd at y wasg yn Ionawr. A. Mummery am gysylltu â'r Daily Post ar ôl derbyn ymateb Pringles	**D. Owen a A. Mummery**	

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 29 Tachwedd 2017 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad